Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Landsker Education

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Landsker Child Care yn cynnig pecyn gofal ac addysg breswyl integredig i ddisgyblion ‘syn derbyn gofal’ ac sydd â heriau yn eu dysgu. Mae amrywiaeth o anghenion gan y disgyblion hyn, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae gan ychydig o’r disgyblion anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

Mae’r sefydliad yn cynnig addysg ym mhob un o’r cartrefi plant. Mae disgyblion yn mynychu Landsker Education ar sail amser llawn, bob tymor.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r sefydliad wedi agor Tŷ Groes Wen, sef cartref newydd i blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bellach, mae 20 lle preswyl wedi’u lledaenu ar draws chwe chartref ar wahân i blant. Mae tri o’r cartrefi hyn yng nghefn gwlad Sir Benfro, dau yn ardal Castell-nedd Port Talbot ac un yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae tri athro wedi gadael a staff newydd wedi’u penodi.

Ar adeg yr arolygiad, roedd 14 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Ymwelodd y tîm â phedwar o’r safleoedd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau’r ysgol:**

- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran eu galluoedd a’u hanghenion unigol;
- mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu da. Maent yn groesawgar tuag at ymwelwyr ac yn siarad am eu gwaith yn hyderus;
- mae staff yn creu amgylchedd dysgu meithringar, sy’n rhoi hyder i ddisgyblion ac yn hybu llwyddiant;
- mae athrawon yn sicrhau bod gwersi wedi’u cynllunio’n dda ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion;
- mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn; ac
- mae gan arweinwyr a staff ymrwymiad cadarn i wella’r ysgol yn barhaus.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae athrawon wedi nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn gwersi pwrpasol ac ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro'r defnydd ar TGCh yn systematig nac yn arfarnu ei heffaith ar ddeilliannau disgyblion;
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella cysylltiedig yr ysgol yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau mesuradwy i'r disgyblion; ac
- er bod yr ysgol wedi datblygu rhaglen o arsylwadau rheolaidd ar wersi, nid yw staff yn cael adborth ysgrifenedig ar ansawdd yr addysgu na'i effaith ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

**A1** Parhau i ddatblygu system ar gyfer monitro ac arfarnu'r defnydd ar TGCh ar draws y cwricwlwm

**A2** Gwella prosesau hunanarfarnu i gynnwys mwy o bwyslais ar safonau cyflawniad

**A3** Rhoi adborth ysgrifenedig i'r staff ar ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddeilliannau disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu cysylltiedig yr ysgol yn canolbwyntio'n gliriach ar ddeilliannau mesuradwy disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod eang o ddata ar berfformiad i gynllunio'n effeithiol. Maent wedi blaenoriaethu meysydd i'w gwella a neilltuo amserlen a chyllid realistig ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae'r broses hunanarfarnu yn ystyried barn ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys staff, disgyblion a rhieni.

**Argymhelliad 2**: Sicrhau bod pob enghraifft o farcio gwaith disgyblion yn adlewyrchu arfer orau yn yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r pennaeth wedi rhoi ystod eang o strategaethau ar waith i wella marcio a sicrhau bod arfer orau'n cael ei rhannu ar draws y tîm. Mae'r rhain yn cynnwys tynnu sylw at ble y cafodd amcanion eu bodloni a gosod dau darged ar gyfer gwella.

**Argymhelliad 3:** Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cynlluniau gwaith ar gyfer bron pob pwnc bellach yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu TGCh. Mae'r holl ddisgyblion yn dilyn cwrs TGCh achredadig ac mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn dda i wneud ymchwil a chyflwyno'u gwaith mewn gwyddoniaeth a mathemateg.

**Argymhelliad 4:** Cryfhau ymhellach y broses ffurfiol o reoli perfformiad trwy sicrhau bod yr holl staff yn cael adborth ysgrifenedig o'r broses

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae athrawon yn elwa ar oruchwyliaeth a chefnogaeth reolaidd a chânt argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth yn arsylwi yn yr ystafelloedd dosbarth yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw pob athro yn cael adborth ysgrifenedig o'r broses hon.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Landsker Education |
| **Rhif yr ysgol** | 668/6016 |
| **Diben yr ymweliad** | Ymweliad monitro ar ôl arolygiad Adran 163 |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 4 a 5 Rhagfyr 2013 |
| **Perchennog** | Landsker Child Care |
| **Staff** | 8 athro<br>88 staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 14 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd yn gysylltiedig â chartrefi plant |
| **Y math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a/neu anawsterau dysgu cymedrol. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Tachwedd 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Tachwedd 2011 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Rosemary Farm Mai 2013<br>Sychpant Gorffennaf 2013<br>Penrhiw Gorffennaf 2013<br>Tŷ Groes Wen Gorffennaf 2013<br>Longlands Awst 2013<br>Greenmeadows Hydref 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |
| **Arolygydd Tîm** | Clare Yardley |
| **Arolygydd Tîm** | Anne Dackevych |